

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Polisi Aesu

2024/25

Cynnwys

1. Pwrpas y Polisi.....	3
2. Yr Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Asesu	3
3. Rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd asesu	3
4. Addasiadau Rhesymol	4
5. Mathau o asesiad.....	6
6. Adborth i Fyfyrrwyr	9
7. Estyniadau i asesiadau	10
8. Amgylchiadau esgusodol	11
9. Marcio a chymedroli asesiadau	11
10. Cosbau asesu	13
11. Dyfarnu marciau.....	14
12. Byrddau Asesu.....	14
13. Cyfleoedd i ailsefyll	15
14. Asesiad Amgen.....	15
15. Apeliadau Academaidd	16
16. Cadw gwaith	16
17. Diogelu Data	16
18. Gwybodaeth gysylltiedig	16
19. Geirfa termau	17
20. Hygyrchedd.....	19
<i>Atodiad 1 Cylch gorchwyl Byrddau Asesu</i>	<i>20</i>
1. Trosolwg	20
2. Rhesymeg.....	20
3. Gweithrediad.....	20
4. Swyddogaethau Aelodau'r Bwrdd Asesu	20
5. Adrodd	20
6. Bwrdd Asesu Modiwlau.....	21
6.1 Cylch gorchwyl	21
6.2 Cyfansoddiad Aelodaeth	22
6.3 Aelodaeth y Bwrdd Asesu Modiwlau	22
6.4 Cworwm	22
6.5 Absenoldeb y Cadeirydd	23
6.6 Absenoldeb cynrychiolydd o blith arholwyr pob maes pwnc a aseswyd/ Cynrychiolydd Academaidd o bob sefydliad partner/Tiwtor Cyswllt Academaidd	23
6.7 Absenoldeb Arholwyr Allanol	23

6.8 Amllder.....	24
7. Byrddau Asesu Dyfarniadau/Cynnydd	24
7.1 Cylch gorchwyl	24
7.2 Aelodaeth o'r Bwrdd Dyfarniadau/Cynnydd	25
7.3 Cworwm	25
7.4 Absenoldeb y Cadeirydd	26
7.5 Absenoldeb Arweinydd Rhaglen Pwnc/Cynrychiolydd Academaidd o bob sefydliad partner / Tiwtor Cyswllt Academaidd.....	26
7.6 Absenoldeb y Prif Arholwr Allanol	26
7.7 Amllder.....	26
7.8 Myfyrwyr yr ystyrir eu bod wedi methu.....	27
7.9 Mynediad ffurfiol i raddau.....	27
7.10 Cyhoeddi canlyniadau.....	27
<i>Atodiad 2 – Cyfarwyddiadau Cyffredinol ar gyfer Marcio Asesiadau</i>	<i>28</i>
1. Fframwaith Marcio Lefel 3.....	28
2. Fframwaith Marcio Lefel 4.....	31
3. Fframwaith Marcio Lefel 5.....	35
4. Fframwaith Marcio Lefel 6.....	40
5. Fframwaith Marcio Lefel 7.....	46

1. Pwrpas y Polisi

1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull y bydd y Brifysgol yn ei fabwysiadu i asesu rhaglenni sy'n arwain at ddyfarniad. Ei ddiben yw bod yn glir ynghylch ar ba sail y bydd y Brifysgol yn sicrhau safonau academiaidd ac yn cefnogi dysgu myfyrwyr orau, gan gynnwys y modd y bydd yn cydymffurfio â gofynion yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd \(QAA\)](#) a [Chôd Ansawdd y DU](#).

1.2 Mae asesiad yn galluogi myfyriwr i ddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni canlyniadau dysgu modiwlau a rhaglenni. Bydd y dull asesu cyffredinol ar gyfer pob rhaglen yn cael ei ystyried drwy brosesau sicrhau ansawdd y Brifysgol. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso yn union yr un modd i'r holl ddarpariaethau a wneir yn enw'r Brifysgol, gan gynnwys yr hyn a ddarperir gan ddarparwyr partner neu mewn cydweithrediad â hwy, oni nodir fel arall o fewn y cytundeb partner academiaidd unigol.

2. Yr Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer Asesu

2.1 Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol i asesu gwaith myfyrwyr:

- i. bydd gan bob rhaglen a modiwl strategaeth asesu a fydd yn cael eu hystyried drwy brosesau dilysu ac ailddilysu rhaglenni'r Brifysgol.
- ii. bydd pob modiwl yn cynnwys un neu fwy o asesiadau. Bydd y pwysoliad a ddyrennir i bob asesiad yn adlewyrchu cyfraniad yr asesiad at ganlyniadau dysgu'r modiwl.
- iii. bydd y llwyth asesu ym mhob modiwl ac ar draws bob rhaglen yn gymesur.
- iv. gall myfyrwyr ddewis cwblhau eu hasesiad yn Gymraeg neu Saesneg, neu gyfuniad o'r ddwy iaith, oni nodir yn wahanol o fewn cytundeb partneriaeth.
- v. mae asesiadau wedi'u cynllunio i fod yn: gynhwysol, clir, darparu her briodol, ac yn gefnogol i ddysgu a datblygu sgiliau myfyrwyr.

3. Rheoli ansawdd a sicrhau ansawdd asesu

3.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod asesiadau'n briodol i ganlyniadau dysgu'r rhaglen/modiwl perthnasol a bod yr holl asesiadau'n cael eu cyflawni a'u marcio gan staff sy'n gymwys i wneud hynny, bod canlyniadau'n cael eu cofnodi, eu prosesu, eu cyflwyno a'u dychwelyd i'r myfyrwyr yn gywir.

3.2 Mae nifer o brosesau ar waith i sicrhau bod trefniadau asesu'r Brifysgol yn bodloni disgwyliadau a gofynion y DU a nodir cyfleoedd mireinio i wneud gwelliannau i'w hasesiadau.

- i. Dilysu ac ail-ddilysu
- ii. Addasu rhaglenni a modiwlau
- iii. Archwilio allanol
- iv. Adolygiad cymheiriaid o bapurau arholiad
- v. Marcio
- vi. Cymedroli mewnol

vii. Byrddau Asesu

Noder: nid yw'r rhestr uchod yn holl-gynhwysol.

3.3 Cyfrifoldeb arweinydd y modiwl yw paratoi'r tasgau asesu ar gyfer eu modiwl. Rhaid iddynt sicrhau bod y dasg asesu yn bodloni'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer asesu a bod y tasgau a osodir yn unigryw ar gyfer pob ail gynnydd i sefyll arholiad. Dylai arweinydd y rhaglen ac arweinwyr y modiwlau adolygu'r tasgau asesu ar gyfer y rhaglen/modiwl o safbwynt cysondeb safonau a chydaddoldeb ymdrech myfyrwyr.

3.4 Mae adolygiad cymheiriaid yn broses lle mae academyddion o fewn timau rhaglen yn adolygu tasgau asesu ei gilydd i sicrhau eu bod yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer asesu ([gweler paragraff 2.1](#)). Nid yw adolygiad cymheiriaid yn cael ei fonitro'n ganolog a lle mae'n cael ei gynnal yn lleol, dylid ei gofnodi.

3.5 Yn ogystal â'r broses adolygu cymheiriaid, dylai Arholwyr Allanol adolygu a chymeradwyo o leiaf 25% o'r holl briffiau/tasgau asesu sy'n cyfrannu at ddyfarniad, gan gynnwys yr holl bapurau arholiad ffurfiol.

3.6 Ar gyfer modiwlau a gyflwynir mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg, dylai Arholwyr Allanol adolygu a chymeradwyo POB tasg/briff asesu sy'n cyfrannu at ddyfarniad, gan gynnwys pob papur arholiad ffurfiol.

3.7 Disgwylir i unrhyw sylwadau ar y briffiau/tasgau asesu gael eu dychwelyd o fewn tair wythnos i'r dyddiad y cânt eu hanfon at yr Arholwr Allanol ac ar ôl y dyddiad cau hwn, bydd y Brifysgol yn cymryd yn ganiataol nad oes unrhyw sylw a bod y briff/tasg asesu yn cael eu cymeradwyo. Dylai arweinydd y rhaglen gadw cofnod o'r sampl a chymeradwyaeth yr Arholwr Allanol.

3.8 Am arweiniad ar ddylunio tasgau, mae adnoddau a chyngor pellach ar gael ar yr [Hyb Dysgu ac Addysgu](#). Mae'r ASA wedi cynhyrchu canllawiau defnyddiol ar [Uniondeb Academaidd](#) y dylid rhoi sylw iddynt fel rhan o'r broses o ddylunio asesiadau.

4. Addasiadau Rhesymol

4.1 Dylid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio ar asesiadau lle mae'r rhain wedi'u hargymhell gan y Gwasanaethau Cynhwysiant. Dylai addasiadau a argymhellir ar gyfer myfyrwyr gael eu gwirio'n rheolaidd ar EVision gan staff academaidd priodol gan fod y data hwn yn cael ei ddiweddarau gan y Gwasanaethau Cynhwysiant trwy gydol y flwyddyn academaidd. Rhaid cadarnhau addasiadau rhesymol cyn i'r asesiad gael ei gynnal, fel arfer ni fyddai hyn yn hwyrach nag wythnos. Dylai myfyrwyr partneriaid sydd angen cymorth ychwanegol gael eu cyfeirio yn y lle cyntaf at y gwasanaeth priodol yn y sefydliad partner.

4.2 Gall addasiadau rhesymol amrywio yn dibynnu ar y dasg asesu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- i. Estyniadau lle bo angen oherwydd dyddiadau cau cydamserol, arferion ffydd neu anawsterau penodol gyda gofynion y cwrs. Mae angen cytuno ymlaen llaw ar y rhain a hynny cyn y dyddiad cau gwreiddiol ond nid oes rhaid darparu tystiolaeth.
- ii. Amser ychwanegol i gwblhau asesiad amser-gyfyngedig, fel arholiad neu brawf yn y dosbarth.
- iii. Gwneud cyflwyniad i grŵp llai neu'r gallu i recordio ymlaen llaw dasg sy'n cynnwys cyflwyniad.
- iv. Defnyddio technoleg gynorthwyol gymeradwy fel meddalwedd trawsgrifio neu ddarllenwydd sgrîn.
- v. Defnyddio offer recordio personol gymeradwy yn unol â pholisi'r Brifysgol.
- vi. Darparu adnoddau cyn y sesiynau.
- vii. Darparu deunyddiau arholiad mewn fformat hygrych, a allai gynnwys darparu deunyddiau printiedig.
- viii. Ar gyfer arholiadau a gaiff eu hamserlennu'n ganolog, bydd yr amserlenni yn ymgorffori trefniadau ar gyfer ystafelloedd gydag amser ychwanegol, darllenwyr ac ati
- ix. Mae'r tîm Rhaglen yn gyfrifol am drefnu profion dosbarth ac arholiadau VLE/ar-lein i sicrhau bod addasiadau rhesymol ar waith.

4.3 Dylid cyfeirio myfyrwyr sydd ag ymholiadau penodol mewn perthynas ag addasiadau rhesymol at y tîm perthnasol. Gall staff wneud atgyfeiriad ar ran myfyrwyr i'w helpu i gael gafael ar gymorth gan Cynhwysiant yma <https://wxm.ac.uk/ask-staff>.

Gwasanaethau Cynhwysiant	Gall y tîm wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr mewn perthynas â chyflwr meddygol tymor hir, anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu wahaniaeth dysgu penodol a gall ddarparu cymorth a chyngor ar wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl.	inclusion@wrexham.ac.uk ask@wrexham.ac.uk
Tîm Caplaniaeth	Fel Prifysgol, mae angen i ni hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dros ymateb i faterion ymarferol sy'n gysylltiedig â chadw ffydd ar y campws a cheisiadau gan fyfyrwyr am addasiadau.	ask@wrexham.ac.uk

5. Mathau o asesiad

5.1 Bydd y Brifysgol yn defnyddio amryw o ddulliau asesu i gefnogi dysgu myfyrwyr yn y ffordd orau ac i sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu cynnal.

5.2 Caiff asesiad ei gategoreiddio fel y naill neu'r llall o'r isod:

- i. Ffurfiannol – sy'n cyfrannu at ddysg y myfyrwyr drwy gyflwyno sylwebaeth ar waith a gyflwynwyd ond sydd ddim yn cyfrannu at y marc ar gyfer y modiwl.
- ii. Crynodol – cyflwyno gwaith sydd wedi'i farcio ac sy'n cyfrannu at y marc cyffredinol am y modiwl.

5.3 Gall asesiad fod ar ffurf gwaith cwrs, profion ymarferol neu arholiadau yn y dosbarth:

- i. Gwaith cwrs – gwaith sy'n cael ei gwblhau yn amser y myfyriwr ei hun ac y mae'n rhaid ei gyflwyno erbyn amser a dyddiad penodol. Gall gwaith cwrs gynnwys llawer o ddulliau asesu megis ysgrifennu ymarferol, traethodau, portffolios, astudiaethau achos, prosiectau a thraethodau hir.
- ii. Ymarferol – asesiad o sgiliau neu allu ymarferol y myfyriwr. Mae asesiadau o sgiliau ymarferol yn canolbwyntio ar p'un a yw myfyriwr yn cyflawni sgil ymarferol benodol a/neu ar ba mor dda mae'n cyflawni'r sgil honno. Mae enghreifftiau o asesiadau ymarferol yn cynnwys: sgiliau clinigol, Arholiad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol (OSCE), efelychiadau, gwaith labordy, ac asesiadau llafar fel cyflwyniadau a thrafodaethau, (lle mae'r myfyriwr yn cael ei asesu ar eu cyflwyniad a/neu eu cyfraniad)
- iii. Arholiadau – digwyddiad y mae'n rhaid i fyfyriwr ei fynychu ar adeg a lle penodol. Gall arholiadau gynnwys dulliau asesu fel profion yn y dosbarth, ar-lein ac ar y campws. Mae canllawiau pellach ar gyfer staff academiaidd ar gael yn y [Canllawiau ar gyfer Cynnal Arholiadau](#) (ar yr Hyb Dysgu ac Addysgu)
 - a. Cynhelir pob arholiad yn ystod cyfnodau arholiadau ffurfiol (fel y'u diffinnir yn y calendr academiaidd). Bydd y tîm amserlennu (timetables@wrexham.ac.uk) yn cydlynu'r broses o amserlennu dyddiadau arholiadau a bydd amserlen arholiadau yn cael ei llunio.
 - b. Bydd arholiadau'n cael eu cynnal yn electronig, rhaid i eithriadau i hyn gael eu cymeradwyo gan Arweinydd y Rhaglen (gyda mewnbwn gan y prif ddarlithwyr/arweinwyr pwnc).
 - c. Bydd dyddiad, amser a hyd yr arholiad ar gael 4 wythnos cyn dechrau'r cyfnod arholiadau perthnasol.
 - d. Dylai hyd yr arholiadau gyd-fynd â manylion yr asesiad ym manyleb y modiwl.
 - e. Disgwylir y bydd papurau arholiad ar gyfer pob arholiad ffurfiol gan gynnwys papurau cyntaf a phapurau ailsefyll yn cael eu paratoi, eu hadolygu gan gymheiriaid, a'u cymeradwyo'n allanol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar gyfer asesiad Semester 1 ac erbyn 28 Chwefror bob blwyddyn ar gyfer asesiad Semester 2 a Semester 3. Nod y broses hon yw ceisio sicrhau cysondeb rhwng yr asesiad cychwynnol a'r asesiad ailsefyll.

- f. Bydd unrhyw ddefnydd o ddulliau annheg mewn arholiadau ar-lein yn arwain at gamau disgyblu o dan y weithdrefn uniondeb academiaidd.
 - g. Gwaherddir trafod cynnwys papur arholiad gyda myfyrwyr eraill cyn, yn ystod ac ar ôl yr arholiad.
 - h. Bydd datganiad Addas i Eistedd y Brifysgol yn berthnasol i bob arholiad.
 - i. Rhaid rhoi gwybod i'r partner neu safleoedd arholi eraill am unrhyw wallau a ganfyddir yn y papur arholiad. Lle na ellir cywiro'r camgymeriad, rhaid hysbysu Deon y Gyfadran a fydd yn adrodd i'r Bwrdd Asesu.
 - j. Yn achos arholiadau a gynhelir mewn sefydliadau partner, dylid cyfeirio ymholiadau at y Cyswllt Academiaidd.
 - k. Digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld ('Force Majeure') – ni fydd y Brifysgol yn atebol pan fydd yn rhaid canslo arholiad oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Bydd gwybodaeth am ganslo ac aildrefnu arholiadau yn cael ei chyfleu i fyfyrwyr ar wefan y Brifysgol.
- iv. Arholiadau ar-lein – lle mae'n ofynnol i fyfyrwyr gwblhau arholiad o bell o dan amodau wedi'u hamseru a dychwelyd atebion yn electronig erbyn diwedd yr arholiad trwy amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) y Brifysgol.
- a. Gall myfyrwyr ddefnyddio eu dyfais eu hunain mewn unrhyw leoliad ac nid oes angen goruchwyliaeth. Os nad oes gan fyfyrwyr fynediad at eu dyfais eu hunain i gynnal arholiad ar-lein, dylent hysbysu arweinydd eu modiwl yn y lle cyntaf.
 - b. Gallant fod ar ffurf arholiad llyfr agored neu gaeëdig.
 - c. Cyn yr arholiad, rhaid i fyfyrwyr ddarllen y canllawiau arholiad a chwblhau hunanddatganiad ar gyfer uniondeb academiaidd.
 - d. Arholwr y modiwl fydd yr arweinydd modiwl penodedig, ar y safle ble cynhelir yr arholiad.
 - e. Bydd modd cysylltu gydag arholwr y modiwl ar-lein drwy'r VLE neu drwy e-bost yn ystod amser gwaith lleol (8:30am-5:00pm) yn ystod y cyfnod arholi i ddelio ag ymholiadau ynghylch papurau arholiad a gwneud cywiriadau os yw'n berthnasol.
 - f. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno eu hatebion cyn diwedd cyfnod yr arholiad. Ni fydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu hystyried a byddant yn cael eu categoreiddio fel absenoldeb, oni bai bod problemau technegol profedig gyda'r plattfform VLE neu feddalwedd arholi, neu os yw'r myfyriwr yn gymwys am amser ychwanegol.
 - g. Rhaid i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau technegol yn ystod yr arholiad hysbysu eu harholwr modiwl ar unwaith. Os na ellir datrys problemau yn ystod y cyfnod arholi, gall myfyrwyr anfon eu ffeiliau ateb drwy e-bost at arholwr y modiwl cyn i'r arholiad ddod i ben ond ni ddylid caniatáu hyn ac

eithrio mewn achos pan na fydd myfyrwyr yn gallu cyflwyno eu gwaith i'w farcio ar y VLE.

- v. Arholiadau ar y campws – lle mae'n ofynnol i fyfyrwyr gwblhau arholiad ar y campws o dan amodau wedi'u hamseru. Lle bo'n bosibl, dylid cynnal arholiadau ar y campws mewn un ystafell a dylai pob arholiad fod o'r un hyd, amser dechrau a gorffen, oni bai bod addasiadau rhesymol ar waith.
 - a. Rhaid i arholiadau ar y campws gael eu cymeradwyo gan Arweinwyr Rhaglen a rhaid cysylltu â'r tîm amserlennu fel y gellir trefnu ystafell.
 - b. Dylid eu cynnal yn electronig, gall myfyrwyr ddefnyddio eu dyfais eu hunain, neu darperir offer mewn ystafell gyfrifiadur/labordy. Ni all y Brifysgol gefnogi arholiadau printiedig, ac eithrio pan fydd hyn er mwyn bodloni addasiad rhesymol y cytunwyd arno neu ofyniad Corff Proffesiynol.
 - c. Rhaid i Arweinwyr Modiwlau roi gwybod ymlaen llaw i bob myfyriwr am ddull cynnal yr arholiad a hwyluso profion ar unrhyw offer cyn yr arholiad, os oes angen.
- vi. Profion yn y dosbarth - digwyddiad y mae'n rhaid i fyfyriwr ei fynychu ar adeg a lle penodol a all fod ar-lein neu ar y campws ac a fydd yn cael ei drefnu yn ystod wythnosau addysgu.
 - a. Tîmau rhaglenni sy'n gyfrifol am drefnu profion yn y dosbarth, bydd y Tîm Amserlennu yn diweddarau amserlenni yn unol â hynny ac yn cynghori ar argaeledd ystafelloedd.
 - b. Ni ddylai profion yn y dosbarth ddigwydd yn ystod wythnosau arholiadau ffurfiol a dylai'r tiwtor modiwl dan sylw gysylltu ag arweinydd y rhaglen i osgoi gwrthdaro.
 - c. Dylid rhoi o leiaf pedair wythnos o rybudd i fyfyrwyr o ddyddiad prawf yn y dosbarth.
 - d. Dylai'r cyfnod amser ar gyfer prawf yn y dosbarth gyd-fynd â manylion yr asesiad ym manyleb y modiwl.
- vii. Canllawiau goruchwyliaeth:
 - a. Rhaid bod o leiaf dau oruchwyliwr ym mhob ystafell, lle mae mwy nag un myfyriwr yn sefyll arholiad. Fel arfer, mae angen goruchwyliwr ychwanegol os oes mwy na 50 o fyfyrwyr yn yr ystafell arholi.
 - b. Arweinydd y modiwl fydd y Prif Oruchwyliwr fel arfer. Byddant yn gyfrifol am sicrhau bod yr arholiad yn cael ei gynnal mewn modd priodol a byddant yn cwblhau adroddiad Goruchwyllo i gofnodi unrhyw ddigwyddiadau.
 - c. Os bydd myfyriwr yn mynd yn sâl yn ystod yr arholiad, dylent hysbysu'r goruchwyliwr cyn gadael yr ystafell arholi. Dylid cynghori'r myfyriwr i geisio sylw meddygol ar unwaith a chyfeirio at y weithdrefn Amgylchiadau

Esgusodol am arweiniad. Unwaith y bydd myfyriwr wedi gadael yr ystafell arholi yn ddi-oruchwyliaeth, ni chaniateir iddynt ddychwelyd iddi.

- d. Os bydd y larwm tân yn canu yn ystod arholiad ar y campws neu brawf yn y dosbarth, bydd y myfyrwyr yn cael cyfarwyddyd i adael yr ystafell arholi gan y Prif Oruchwylwr. Efallai y bydd angen aildrefnu'r arholiad os nad oedd yn bosibl cynnal amodau arholiad.

viii. Ymddygiad yn ystod Arholiadau:

Dylid darllen yr adran hon ochr yn ochr â'r [Weithdrefn Uniondeb Academaidd](#).

- a. Pan ddaw'n hysbys bod papur arholiad wedi'i gyfaddawdu, cyn i'r arholiad gael ei gynnal, bydd angen i'r tîm rhaglen ddarparu papur newydd ar frys i atal myfyrwyr rhag bod dan anfantais.
- b. Pan ddaw'n hysbys bod papur arholiad wedi'i gyfaddawdu, ar ôl i'r arholiad gael ei gynnal, bydd yr arholiad yn cael ei ddirymu a bydd disgwyl i fyfyrwyr sefyll papur newydd nad ydynt wedi ei weld cyn gynted â phosibl.
- c. Os yw'r goruchwylwr yn credu bod myfyriwr yn achosi aflonyddwch i fyfyrwyr eraill yn yr ystafell, mae ganddynt yr awdurdod i fynnu bod y myfyriwr yn gadael yr ystafell arholi. Fel arfer, dylid cyhoeddi un rhybudd a chofnod o'r rhybudd a roddwyd ac os na fydd y myfyriwr yn gwrandao ar hyn, dylid ei orchymyn i adael yr ystafell.
- d. Pan amheuir bod achos o dorri Uniondeb academaidd yn ystod yr arholiad, bydd y goruchwylwr yn hysbysu'r myfyriwr/myfyrwyr y bydd y digwyddiad yn cael ei adrodd o dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd. Bydd y Prif Oruchwylwr yn cofnodi'r amser a'r manylion am y digwyddiad ar yr adroddiad Goruchwyliaeth. Efallai y caniateir i'r myfyriwr/myfyrwyr barhau â'r arholiad ond dylid eu cynghori y bydd eu marc arholiad yn cael ei ddal yn ôl, yn amodol ar ganlyniad y [Weithdrefn Uniondeb Academaidd](#).
- e. Gellir delio gyda myfyriwr dan y gweithdrefnau disgyblu am ymddwyn yn amhriodol mewn arholiad.

6. Adborth i Fyfyrwyr

6.1 Rhaid rhoi adborth i fyfyrwyr ar eu gwaith asesedig i helpu i gefnogi eu dysgu. Dylai'r adborth gynnwys marc dros dro yn ogystal â gwybodaeth am ba mor dda y mae'r myfyriwr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu gofynnol o ran y meini prawf asesu, sut y cafodd y marc ei weithio allan ac unrhyw feysydd y mae angen eu datblygu. Nid yw'r marc dros dro yn cael ei gadarnhau nes iddo gael ei gymeradwyo yn y Bwrdd Asesu.

6.2 Dylai'r modd y cyflwynir adborth ymwneud â natur yr asesiad a gall gynnwys:

- i. Adborth llafar i fyfyriwr unigol neu grŵp o fyfyrwyr (e.e. ar gyflwyniad)
- ii. Adborth ysgrifenedig neu glywedol (e.e. ar waith cwrs neu brosiectau)

- iii. Model o atebion neu atebion enghreifftiol gyda sylwebaeth gysylltiedig (e.e. arholiadau)

6.3 Rhaid i unrhyw adborth asesu crynodol gael ei ddangos ar y VLE. Lle rhoddir adborth llafar ar gyfer asesiad crynodol, rhaid cofnodi hyn.

6.4 Efallai y bydd gan fyfyrwyr fynediad dros dro i'r arholiad digidol at ddibenion adborth neu byddant yn derbyn dogfen adborth ar wahân i adolygu sylwadau a wnaed gan y marciwr. Darperir yr adborth hwn mewn sesiwn a hwylusir gan y marciwr neu aelod arall o staff sy'n gallu cefnogi'r myfyriwr.

6.5 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod unrhyw Addasiadau Rhesymol y cytunwyd arnynt yn cael sylw o ran y modd y darperir adborth i fyfyriwr er mwyn sicrhau'r dull gorau o gefnogi eu hanghenion a'u dysgu.

6.6 Fel arfer, bydd myfyrwyr yn cael adborth ar eu hasesiad o fewn tair wythnos waith o'i gyflwyno neu gwblhau arholiad neu brawf. Mewn achosion eithriadol, bydd myfyrwyr yn cael gwybod am unrhyw wyriad o'r amserlen hon a'r rhesymau am hynny.

6.7 Mewn meysydd rhaglenni heb diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg, bydd gwasanaethau cyfieithu yn cael eu defnyddio i alluogi marcio a darparu adborth yn y Gymraeg neu mewn rhai achosion, deuir o hyd i farcwyr allanol.

7. Estyniadau i asesiadau

7.1 Mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno cais am estyniad o wythnos i gyflwyno gwaith cwrs asesedig¹ **Mathau o asesiad**. Rhaid gwneud y cais o leiaf 24 awr cyn y dyddiad cyflwyno gwreiddiol. Dylai myfyrwyr e-bostio'r cais at yr Arweinydd Modiwl perthnasol.

7.2 Bydd y Brifysgol ond yn ystyried ceisiadau am hyd at wythnos sy'n cael eu cyflwyno o fewn y gofyniad amser. Dylid cyfeirio myfyrwyr at y weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol ar gyfer unrhyw geisiadau eraill.

7.3 Os yw myfyriwr sydd ag addasiad rhesymol wedi cael estyniad yn barod i'w ddyddiad cyflwyno, yn unol ag argymhelliad y Gwasanaethau Cynhwysiant, gallant gyflwyno cais pellach yn unol â'r paragraff uchod, ond rhaid ei gyflwyno o leiaf 24 awr cyn y dyddiad cyflwyno diwygiedig.

¹ Diffinnir y term gwaith cwrs yn y polisi fel gwaith a gwblheir yn amser y myfyriwr ei hun ac y mae'n rhaid ei gyflwyno erbyn amser a dyddiad penodol. Gall gwaith cwrs gynnwys llawer o ddulliau asesu megis ysgrifennu ymarferol, traethodau, portffolios, astudiaethau achos, prosiectau a thraethodau hir.

8. Amgylchiadau esgusodol

8.1 Pan fo myfyriwr yn profi amgylchiadau esgusodol annisgwyl sydd y tu hwnt i'w reolaeth ac a allai gael effaith ar eu perfformiad academaidd, gellir cyflwyno cais amgylchiadau esgusodol yn unol â [Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol](#).

9. Marcio a chymedroli asesiadau

9.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddefnyddio ystod lawn y raddfa farcio ac mae wedi cynghori ei staff a'i harholwyr allanol yn unol â hynny. Mae hyn yn arbennig o bwysig ym mhen uchaf ac isaf yr ystod. Dyfernir marciau ar raddfa ganrannol (0-100%), ac eithrio pan fo angen graddfeydd eraill.

9.2 Mae pob un o aelodau staff academaidd llawn amser a rhan-amser y Brifysgol yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd fel Arholwyr Mewnol. Rhaid penodi Arholwyr Mewnol ar gyfer Graddau Ymchwil yn unol â'r Rheoliadau priodol ar gyfer Dyfarniadau MPhil a PhD.

9.3 Mewn achos, ac am ba bynnag reswm, megis salwch neu absenoldeb o'r Brifysgol, lle na fedr aelod o'r staff academaidd a fyddai fel arfer yn marcio sgriptiau neu waith cwrs ar gyfer rhaglen wneud hynny, byddid fel arfer yn gofyn i aelod arall o staff sydd â'r wybodaeth briodol ymgymryd â'r gwaith.

9.4 Bydd Deon y Gyfadran ynghyd â Deoniaid Cyswllt hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion priodol o farcio a chymedroli Mewnol (ffurflenni MEMR) yn cael eu cynnal a'u storio'n ganolog o fewn safle Timau CME fel eu bod yn gwbl archwiliadwy, dylid creu ffolder o'r enw ffurflenni MEMR yn y ffolder pwnc perthnasol a llwytho pob ffurflen i fyny i'r ffolder hon.

9.5 Mae'r Brifysgol yn defnyddio'r dulliau canlynol ar gyfer marcio asesiadau:

- i. Marcio Cyntaf
- ii. Cymedroli mewnol
- iii. Ail Farcio

Math	Gofynion
<i>Marcio cyntaf</i>	Mae marciwr cyntaf yn aelod o staff academaidd sy'n gysylltiedig ag addysgu'r pwnc sy'n cael ei asesu a bydd yn dyrannu marciau i'w dyfarnu yn erbyn y deilliannau dysgu sy'n cyd-fynd â disgrifyddion gradd perthnasol. Mae marcwyr cyntaf hefyd yn darparu sylwebaeth ysgrifenedig ar gyfer adborth myfyrwyr. Rhaid i bob asesiad fynd drwy'r broses marcio cyntaf.
<i>Cymedroli mewnol</i>	Mae grŵp o staff academaidd yn adolygu sampl o waith wedi'i asesu ar gyfer pob modiwl yn flynyddol. Bydd yr ymarfer cymedroli yn pennu cysondeb y marciau ac yn sicrhau eu bod yn gynrychiolaeth deg o safonau'r sector, y defnydd o'r broses farcio a bod y meini prawf marcio wedi'u defnyddio'n gywir.

Math	Gofynion										
	<p>Dylai'r sampl:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fod yn 10% neu'n 5 darn o waith, pa un bynnag sydd fwyaf. • Cynrychioli'r ystod lawn o farciau. • Cynnwys samplau ar gyfer pob lleoliad lle mae mwy nag un. • Cynnwys samplau sydd ar y ffin rhwng pasio/methu a methiannau. • Cynnwys samplau o'r holl farcwyr cyntaf pan fydd mwy nag un. • Cynnwys samplau o asesiadau a gwblhawyd yn ddwyieithog neu mewn ieithoedd eraill. 										
Ail farcio	<p>Mae ail farciwr yn aelod o staff academiaidd sy'n ymwneud ag addysgu'r pwnc. Ni allant hefyd fod yn farciwr cyntaf.</p> <p>Dim ond i draethodau a phrosiectau blwyddyn olaf y cymhwysir ail farcio. Bydd maint y garfan yn pennu maint y sampl ar gyfer ail farcio.</p> <p>Dylai'r sampl:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gynnwys yr holl fethiannau. • Cynnwys yr holl samplau sydd ar y ffin rhwng pasio/methu. • Cynrychioli'r ystod lawn o farciau. • Cynnwys samplau ar gyfer pob marciwr cyntaf lle mae mwy nag un. • Cynnwys samplau ar gyfer pob lleoliad lle mae mwy nag un. • Cynnwys samplau o asesiadau a gwblhawyd yn ddwyieithog neu mewn ieithoedd eraill. <table border="1" data-bbox="603 1536 1270 1733"> <thead> <tr> <th>Nifer y myfyrwyr</th> <th>Maint y sampl</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>20 neu lai</td> <td>100%</td> </tr> <tr> <td>21 – 49</td> <td>75%</td> </tr> <tr> <td>50 – 199</td> <td>50%</td> </tr> <tr> <td>200+</td> <td>25%</td> </tr> </tbody> </table>	Nifer y myfyrwyr	Maint y sampl	20 neu lai	100%	21 – 49	75%	50 – 199	50%	200+	25%
Nifer y myfyrwyr	Maint y sampl										
20 neu lai	100%										
21 – 49	75%										
50 – 199	50%										
200+	25%										
Arholi allanol	<p>Rhaid i arholwyr allanol adolygu sampl ddigonol o dasgau asesu a gwaith myfyrwyr sy'n cynnwys yr holl fodiwlau y penodwyd nhw ar eu cyfer.</p>										

Math	Gofynion
	<p>Dylai'r sampl:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fod yn 10% neu'n 5 darn o waith, pa un bynnag sydd fwyaf. • Cynrychioli'r ystod lawn o farciau. • Cynnwys samplau ar gyfer pob lleoliad lle mae mwy nag un. • Cynnwys samplau sydd ar y ffin rhwng pasio/methu a methiannau. • Cynnwys samplau o'r holl farcwyr cyntaf pan fydd mwy nag un. • Cynnwys samplau o asesiadau a gwblhawyd yn ddwyieithog neu mewn ieithoedd eraill. <p>Deur o hyd i Arholwr Allanol dwyieithog ar gyfer rhaglenni sy'n cynnig darpariaeth ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg neu ieithoedd eraill.</p>

9.6 Lle nad yw'n bosibl i farcwyr cyntaf neu ail farcwyr gytuno ar farciau, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Arweinydd y Rhaglen. Os bydd angen, penodir trydydd marciwr mewnlol cyn i'r gwaith gael ei gyflwyno i'r Arholwr/wyr Allanol. Ni ddylid defnyddio'r Arholwr Allanol fel trydydd marciwr.

9.7 Wrth anfon tasgau asesu at Arholwyr Allanol dylid anfon llawlyfrau modiwl a chynlluniau marcio ar gyfer pob safle cyflwyno hefyd. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn sicrhau bod pecynnau modiwl o waith myfyrwyr sydd i'w gymedroli ar gael i Arholwyr Allanol, gan gadw at [Bolisi Rheoli Cofnodion](#) y Brifysgol. Dylai cyflwyno copïau papur o waith myfyrwyr i'w safoni fod am resymau eithriadol sydd wedi eu cymeradwyo gan y Deon Cyswllt perthnasol.

9.8 Rhaid i'r pecynnau modiwl hyn gynnwys yr isod o leiaf:

- i. rhestr o'r sampl a ddewiswyd gyda rhesymau dros eu dethol a thystiolaeth o ail farcio ac unrhyw drafodaeth gymedroli.
- ii. manyleb y modiwl.
- iii. briff yr aseiniad, atebion sampl (lle bo'n berthnasol) a llawlyfr modiwl
- iv. y meini prawf marcio.
- v. set ddrafft o'r marciau ar gyfer y garfan.

10. Cosbau asesu

10.1 Yn ogystal â'r cosbau ar gyfer asesiadau hwyr a nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol, paragraff E4: ii; efallai y byddwch hefyd yn ddarostyngedig i gosbau mewn perthynas â nifer geiriau os byddwch yn mynd 10% dros y nifer geiriau a bennwyd ar gyfer asesiad gwaith cwrs. Y gosb am fynd dros y nifer geiriau fydd 5 marc fesul pob 1000 gair gormodol.

10.2 Rhaid marcio aseiniadau yn eu cyfanrwydd a phenderfynu ar y gosb ar y diwedd.

10.3 Rhaid nodi canllawiau a gwybodaeth ynghylch cosbau asesu yn glir mewn llawlyfr rhaglen neu friff aseiniadau (fel y nodir yn y Rheoliadau Cyffredinol, E4:iv) a hynny er budd myfyrwyr, marcwyr mewnol ac arholwyr allanol.

11. Dyfarnu marciau

11.1 Bydd myfyrwyr yn derbyn meini prawf ar gyfer pob asesiad a fydd yn cyd-fynd â'r deilliannau dysgu penodol sy'n cael eu hasesu, a dylid esbonio'r rhain i fyfyrwyr cyn iddynt ymgymryd â'r gweithgaredd. Bydd y meini prawf asesu a ddarperir i fyfyrwyr yr un meini prawf a'r rhai a ddefnyddir gan staff yn y broses farcio.

11.2 Nodir y meini prawf mewn cyfarwyddyd a fydd yn cynghori myfyrwyr ar yr allbynnau y mae angen eu dangos yn yr asesiad er mwyn cyflawni gradd benodol. Bydd meini prawf asesu (deilliannau dysgu a amlinellir ym manyleb y modiwl perthnasol) yn cyd-fynd â [Chyfarwyddiadau Marcio Aseiniadau Generig y Brifysgol \(Atodiad 3\)](#). Gellir diwygio geiriad sydd wedi'i gynnwys yn y cyfarwyddiadau generig, sy'n ymwneud ag i ba raddau y mae myfyriwr wedi bodloni'r meini prawf (canlyniad dysgu) fel sy'n briodol i'r canlyniad dysgu. Fodd bynnag, dylai'r geiriad fod yn gyson â disgrifiadau lefel QAA ar gyfer y lefel berthnasol. Defnyddir y rhain ar draws pob rhaglen sy'n arwain at ddyfarniad gan y Brifysgol i sicrhau cysondeb o ran safonau academiaidd, gan gynnwys y rhinweddau y mae angen eu dangos ar gyfer dosbarthiad gradd penodol.

11.3 Ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu cydnabod gan Gorff Statudol neu Reoleiddiol Proffesiynol, bydd meini prawf penodol y bydd angen i fyfyrwr eu bodloni i ddangos eu bod yn bodloni safonau proffesiynol.

12. Byrddau Asesu

12.1 Mae'r Byrddau Asesu yn gyfarfod ffurfiol o staff academiaidd sy'n gysylltiedig â chyflwyno rhaglen ac a fynychir gan Arholwr(wyr) Allanol. Mae Byrddau Asesu yn gyfrifol am sicrhau bod y Rheoliadau Academiaidd yn cael eu cymhwyso a'u cynnal yn gyson ac unrhyw wriad o'r Rheoliadau Academiaidd fel y maent yn berthnasol i raglenni astudio.

12.2 Gall y Bwrdd Asesu hefyd gynnwys aelodau allanol eraill; fel cynrychiolwyr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol lle bo hynny'n ofynnol gan y cyrff hynny.

12.3 Mae cylch gorchwyl, cyfansoddiad aelodaeth a chworwm ar gyfer Byrddau Asesu wedi'u nodi yn [Atodiad 1](#).

12.4 Mae gofynion gwahanol yn berthnasol i'r Byrddau sy'n ystyried traethodau ymchwil myfyrwyr gradd ac yn cael eu disgrifio yn yr adran berthnasol o'r [Rheoliadau Academiaidd](#) ar gyfer y dyfarniadau hynny.

12.5 Mae gan y Brifysgol ddau fath o Fyrdau Asesu:

- i. Bydd y *Bwrdd Asesu Modiwlau* yn ystyried ac yn cymeradwyo canlyniadau'r modiwl ar gyfer pob myfyriwr.

- ii. Bydd y *Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd* yn ystyried ac yn cymeradwyo'r canlyniadau cyffredinol ar gyfer pob myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ymddygiad a chylch gorchwyl y Byrddau Asesu yn [Atodiad 1](#).

12.6 Dylai Arholwr Allanol fod yn bresennol mewn Byrddau Asesu, a lle mae'n absennol, dylid cofnodi hyn yng nghofnodion y bwrdd asesu a rhaid iddynt ddarparu ymateb ysgrifenedig sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- i. y dyddiad
- ii. manylion cyfarfod y Bwrdd Asesu
- iii. y rheswm dros absenoldeb
- iv. cadarnhau eu cyfranogiad i'r asesiad (byrddau asesu modiwlau yn unig) a'u cydsyniad â'r argymhellion terfynol y cawsant eu hysbysu ohonynt.

12.7 Bydd Prif Arholwr Allanol yn mynychu bwrdd Dyfarniadau/Cynnydd i sicrhau bod dilysrwydd a chywirdeb y prosesau yn cael eu cynnal. Byddant yn:

- i. cadarnhau dyfarniad credyd i fyfyrwr ar fodiwlau a basiwyd yn dilyn digollediad ('compensation')
- ii. cadarnhau cymhwysedd myfyriwr ar gyfer cynnydd neu ddyfarniad ar sail credyd cronedig
- iii. sicrhau bod unrhyw ofynion penodol am ddyfarniad wedi'u bodloni.

12.8 Bydd y tîm Asesu a Dyfarnu yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael gwybod am eu canlyniadau. Bydd Arweinydd y Rhaglen yn gwneud trefniadau i hysbysu myfyrwr, yn ysgrifenedig, am unrhyw ofynion ailasesu.

13. Cyfleoedd i ailsefyll

13.1 Bydd ailsefyll yn digwydd ar y cyfle nesaf sydd ar gael, a bydd tîm y rhaglen yn penderfynu ar yr amseriad. Gellir cynnal yr ail arholiadau yn ystod y flwyddyn lle caniateir hynny gan dîm y rhaglen, ar gyfer arholiadau a gymerwyd yn semester un, byddai'r ailsefyll yn digwydd yn ystod cyfnod arholiadau semester dau.

13.2 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ailsefyll ar gyfer pob dyfarniad yn y [Rheoliadau Academaidd](#) penodol ar gyfer dyfarniadau.

13.3 Rhaid talu ffioedd ychwanegol ar gyfer ailasesiadau a chodir ffioedd yn unol â'r cyfraddau a nodir yn y Rheoliadau Ffioedd Dysgu, a geir ar dudalen [Ffioedd a Chyllido](#) gwefan y Brifysgol.

14. Asesiad Amgen

14.1 Mae'r Brifysgol yn annog ein darpariaeth i fabwysiadu strategaeth asesu amrywiol, drwy hyn bydd ystod o fathau o asesiadau ar gael i herio ein myfyrwr a chefnogi eu taith

ddysgu. Fel rhan o hyn, efallai y bydd achosion lle na allwn ail-greu'r math o asesiad gwreiddiol ar adeg ailsefyll.

14.2 Yn yr achosion hyn, bydd asesiad amgen yn cael ei greu gan dîm y rhaglen a fydd mor agos â phosibl at y dull asesu gwreiddiol ac a fydd yn cefnogi myfyrwyr i gyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl perthnasol. Defnyddir asesiadau amgen fel arfer mewn achosion lle mae mathau o asesiad yn cynnwys asesiadau grŵp, ymarferol neu rai sy'n seiliedig ar berfformiad.

14.3 Bydd pob tasg asesu amgen yn cael ei dylunio fesul achos ac yn berthnasol i unrhyw fyfyrwr y mae'n ofynnol iddo ailsefyll y dasg asesu y mae'r asesiad amgen yn berthnasol iddi o fewn y modiwl hwnnw. Darperir rhagor o wybodaeth am Asesiadau Amgen yn llawlyfr y modiwl neu fanyleb y modiwl.

15. Apeliadau Academaidd

15.1 Rhaid i fyfyrwr sy'n dymuno gwneud apêl academaidd fodloni'r sail dros apelio a chyflwyno eu ffurflen a thystiolaeth ategol o fewn yr amserlenni penodedig, fel y manylir yn y [weithdrefn Apeliadau Academaidd](#).

16. Cadw gwaith

16.1 Mae gan y Brifysgol amserlen cadw cofnodion sy'n nodi pa mor hir y dylid cadw gwaith myfyrwyr. Pwrpas cadw gwaith yw darparu tystiolaeth rhag ofn y bydd adolygiad o benderfyniad y Bwrdd Asesu ac at ddibenion sicrhau ansawdd. Mae'r [amserlen cadw cofnodion](#) yn rhan o'r wybodaeth a'r arweiniad ar reoli cofnodion a chydymffurfiaeth â [Pholisi Rheoli Cofnodion y Brifysgol](#).

17. Diogelu Data

17.1 Pan nad oes angen y gwaith mwyach at y diben y cadwyd ef ar ei gyfer, dylai cyfadrannau fod â system gadarn ar waith ar gyfer dileu gwaith a aseswyd yn gyfrinachol.

18. Gwybodaeth gysylltiedig

18.1 Mae ein holl bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u hysgrifennu trwy lens sy'n ystyriol o drawma gan ddefnyddio [Pecyn Cymorth TrACE](#), ac wedi'u llywio gan Safonau'r Gymraeg a CYFLE, [Strategaeth a Chynllun Gweithredu Academaidd Cyfrwng Cymraeg](#) Prifysgol Wrecsam. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â rheoliadau, polisiâu a gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys:

- i. Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- ii. Beichiogrwydd myfyrwyr, mamolaeth, mabwysiadu a pholisi a gweithdrefn gofalwyr eilaidd
- iii. Siarter Cydraddoldeb Hiliol

Noder: nid yw'r rhestr uchod yn holl-gynhwysol.

19. Geirfa termau

Asesiad	Diffinnir asesiad fel y modd y mae cyrhaeddiad myfyriwr yn cael ei archwilio a'i raddio'n gryno mewn rhyw ffordd. Gall asesiad fod ar ffurf gwaith cwrs, profion ymarferol neu arholiadau yn y dosbarth.
Dyfarniad	Tystysgrif, diploma, gradd (neu deitl cymhwyster arall) sy'n nodi bod llwybr neu Raglen a enwir wedi'u cwblhau'n llwyddiannus i safon gymeradwy.
Digollediad (FC neu RC)	O fewn terfynau credyd penodol, gellir dyfarnu credyd i fyfyriwr am fodiwlau nad ydynt wedi'u pasio.
Credydau	Neilltuir credydau i fodiwl sy'n nodi'r cyfraniad y mae'r modiwl yn ei wneud i raglen astudio.
Gohirio (D)	Gohirio yw pan fydd y Bwrdd Asesu yn cadarnhau penderfyniad y Panel Amgylchiadau Esgusodol y caniateir i fyfyriwr y mae ei berfformiad mewn modiwl neu fodiwlau wedi cael ei effeithio gan amgylchiadau esgusodol ailsefyll yr asesiad hwnnw heb gollu ymdrech.
Arholwyr Allanol	Rhaid penodi pob Arholwr Allanol ar gyfer rhaglenni a addysgir yn unol â Chôd Ansawdd QAA UK ar gyfer Addysg Uwch - Cyngor ac Arweiniad: Arbenigedd Allanol. Rhaid penodi pob Arholwr Allanol ar gyfer Graddau Ymchwil yn unol â'r Rheoliadau priodol ar gyfer Gwobrau Ymchwil Ôl-raddedig.
Methu (F)	'Methu' yw pan fydd myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen astudio yn dihybyddu pob ymgais a ganiateir ar gyfer modiwl.
Cadw'n Ôl (H)	Mae marc a gedwir yn ôl yn dangos bod y marc yn cael ei gadw'n ôl tra bod gweithdrefn brifysgol arall yn cael ei dilyn, e.e. Ymchwiliad Uniondeb Academiaidd
Lefel	Mae'r modiwlau a gynigir yn y Brifysgol yn cael eu neilltuo i lefelau yn unol â'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) ac yn unol â Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru (CQFW).
Modiwl	Uned astudio â sgôr credyd gyda chanlyniadau dysgu, cwricwlwm a chynllun asesu penodol.
Heb ymgeisio (N)	Caiff asesiadau sydd heb eu cyflwyno eu cofnodi a'u cyfrif fel ymgais sydd wedi'i defnyddio. Mae hyn yn golygu, ar gyfer yr ailasesiad, mai'r marc uchaf fydd 40% neu radd basio.

Gor-anelu	Mae gor-anelu yn digwydd pan fydd myfyriwr sydd wedi cofrestru ar raglen a addysgir yn cronni mwy o bwyntiau credyd ar lefel benodol nag sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad y maent yn ei ddilyn.
Pasio (P)	Mae'r meini prawf ar gyfer dyfarniad "pasio" wedi'u pennu yn y rheoliadau dyfarnu perthnasol.
Rhaglen	Mae Rhaglen yn gasgliad o fodiwlau mewn trefn benodol, y mae ei chwblhau'n llwyddiannus yn bodloni'r gofynion ar gyfer dyfarniad dynodedig.
Cynnydd	Cynnydd yw pan fydd myfyriwr yn bodloni'r gofynion academaidd i symud ymlaen i lefel, cam neu flwyddyn nesaf eu rhaglen.
Ailasesiad	Ailasesiad yw pan fydd Bwrdd Asesu yn cytuno y gellir cynnig trydydd ymgais eithriadol i fyfyriwr israddedig sydd wedi methu modiwl neu fodiwlau mewn ymgais atgyfeirio (ail ymgais) i adfer y methiant trwy ailsefyll neu ailgyflwyno'r asesiad. Mae myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir wedi'u cyfyngu i ddau ymgais mewn modiwl. Mae hyn yn amodol ar unrhyw ofynion PSRB a allai fod yn berthnasol i'r rhaglen dan sylw o ran nifer yr ymdrechion sydd ar gael i fyfyriwr lwyddo ar gyfer modiwl.
Atgyfeiriad (R)	Atgyfeiriad yw pan fydd y Bwrdd Asesu yn cytuno y gellir cynnig cyfle i fyfyriwr sydd wedi methu modiwl neu fodiwlau ar yr ymgais gyntaf i adfer y methiant trwy ailsefyll yr arholiad perthnasol neu ailgyflwyno'r asesiad perthnasol. Y marc uchaf ar gyfer modiwlau o'r fath fydd 40% (oni bai bod rhanddirymiad wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd) neu radd basio.
Myfyriwr	Person sydd wedi cwblhau cais i'r Brifysgol ac sydd wedi bodloni unrhyw amodau a osodwyd ar gyfer mynediad i'r cwrs(cyrsiâu)/rhaglen(ni) y gwnaed cais amdanynt fel y cadarnhawyd gan y tiwtor(iaid) derbyn dan sylw ac sydd wedi cwblhau'r broses gofrestru ffurfiol i ymuno â'r rhaglen(ni) astudio, darparu'r wybodaeth bersonol ofynnol i'r Brifysgol ac arwyddo ffurflen gofrestru ffurfiol gan y Brifysgol ac sydd wedi ei hanfon at, a'i derbyn gan y tîm Cynllunio Strategol.
Gohiriad Technegol	Dyfernir gohiriad technegol gan Fwrdd Asesu pan fo myfyriwr/myfyrwr wedi cael eu heffeithio'n andwyol gan faterion rheoli rhaglenni neu faterion allanol y tu hwnt i'w rheolaeth.

<p>Dal i fyny (‘Trailing’)</p>	<p>Dal i fyny yw pan fydd Bwrdd Asesu yn caniatáu i fyfyrwr symud ymlaen i lefel, cam neu flwyddyn nesaf y rhaglen, ar ôl peidio â chwblhau pob modiwl yn llwyddiannus yn ystod y lefel, cam neu flwyddyn flaenorol. Mae'n ofynnol i fyfyrwr mewn achosion o'r fath astudio ar gyfer y modiwlau nad ydynt eto wedi'u cwblhau'n llwyddiannus ochr yn ochr â'r modiwlau y maent yn eu hastudio ar y lefel nesaf, yn unol â rheoliadau dyfarnu perthnasol.</p>
--	---

20. Hygyrchedd

20.1 Mae Prifysgol Wreccsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol wedi'i llywio gan drawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom ar quality@wrexham.ac.uk.

Atodiad 1 Cylch gorchwyl Byrddau Asesu

1. Trosolwg

Is-bwyllgor o'r Bwrdd Academaidd yw Bwrdd Asesu.

Mae'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd ac yn gweithredu'n unol â'r Rheol Sefydlog ar Ymddygiad Pwyllgorau.

2. Rhesymeg

Cefnogi'r Bwrdd Academaidd i gwrdd â'i gyfrifoldeb am sicrhau:

- i. fod safonau academaidd rhaglenni'r Brifysgol yn bodloni gofynion y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol perthnasol.
- ii. bod gwerth y cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr ar bwynt cymwysterau a thros amser yn cydymffurfio â safonau a gydnabyddir gan y sector.

3. Gweithrediad

Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod gan y Byrddau Asesu reoliadau presennol y Brifysgol a rheoliadau'r rhaglen astudio benodol wrth law a bod aelodau'n ymwybodol o'r rheoliadau y bwriedir gwneud penderfyniadau'n unol â nhw.

Bydd y dulliau asesu'n cydymffurfio â dogfen y Rhaglen Ddilysedig ac unrhyw welliannau a gymeradwywyd. Bydd unrhyw amrywiad eithriadol i'r dull asesu yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gofnodi yn y cofnod o benderfyniadau'r Bwrdd.

4. Swyddogaethau Aelodau'r Bwrdd Asesu

Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gynnull a hwyluso cyfarfodydd a chynnal eu didueddrwydd yn y broses benderfynu. Yn ogystal, byddant yn gyfrifol am sicrhau bod rheoliadau'n cael eu gweithredu yn unol â chanllawiau a bod argymhellion y Bwrdd yn cael eu cofnodi'n gywir.

5. Adrodd

Rhaid cofnodi trafodion y Bwrdd Asesu a'u cyflwyno i'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr (SPSA). Mae gwaith papur y Bwrdd Asesu yn cael ei ystyried yn ddogfennau cyfrinachol a dylai gofnodi penderfyniadau'r Bwrdd, gan gynnwys nodiadau lle mae marciau'r myfyrwyr wedi'u diwygio.

6. Bwrdd Asesu Modiwlau

6.1 Cylch gorchwyl

Mae'r Bwrdd Asesu Modiwlau yn atebol i Fwrdd Academaidd y Brifysgol. Gall y Bwrdd Asesu Modiwlau ffurfio unrhyw is-bwyllgorau sydd eu hangen arno i gyflawni ei ddyletswyddau ar yr amod bod y cyfryw bwyllgorau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Asesu Modiwlau. Rhaid i gyfansoddiad a chylch gorchwyl pob is-bwyllgor gael eu cymeradwyo a'u cofnodi gan Fwrdd Asesu'r Modiwl a'i adrodd i'r Bwrdd Academaidd.

Mae Paneli Bwrdd Academaidd sydd wedi'u sefydlu'n ffurfiol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r Panel Amgylchiadau Esgusodol, Panel Camymddwyn Academaidd a'r Panel Apêl yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau a fydd yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan Fwrdd Asesu'r Modiwlau.

Bydd y Bwrdd Asesu Modiwlau yn gyfrifol i, ac yn cael awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd Academaidd i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- i. ystyried y marciau ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r modiwlau sy'n cael eu hasesu ac i fodloni ei hun bod y marciau yn briodol
- ii. anfon y marciau y cytunwyd arnynt i'r Bwrdd Asesu Dyfarniadau / Cynnydd priodol
- iii. sicrhau bod safonau asesu priodol yn cael eu cynnal
- iv. sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hasesu yn unol â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau a gymeradwywyd;
- v. sicrhau bod dulliau asesu yn cydymffurfio â'r ddogfen Rhaglen Ddilysedig. Bydd unrhyw amrywiad eithriadol i'r dull asesu yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd a'i gofnodi yng nghofnodion y Bwrdd.
- vi. gweithredu ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Panel Amgylchiadau Esgusodol
- vii. dal canlyniad myfyriwr yn ôl neu ohirio'r penderfyniad lle mae'n destun ymchwiliad o dan y weithdrefn Uniondeb Academaidd hyd nes y deuir i ganlyniad
- viii. llunio cofnod o ganlyniadau'r modiwl a gymeradwyir gan aelodau'r Bwrdd
- ix. penderfynu ar y dulliau asesu ar gyfer myfyrwyr sy'n ailsefyll arholiadau yn unol â manyleb y modiwl. (Fel arfer, bydd strwythur arholiad o'r fath yr un fath â phan gyflwynwyd y myfyrwyr dan sylw i'w harholi y tro cyntaf)
- x. awdurdodi'r Cadeirydd i gymryd unrhyw gamau Gweithredol a allai fod yn angenrheidiol i hwyluso busnes brys yn dilyn y Bwrdd. Rhaid i'r penderfyniadau hyn fod ar y diwyg y cytunwyd arno a'u cymeradwyo a'u llofnodi'n ffurfiol gan y Cadeirydd. Bydd y ddogfennaeth hon yn cael ei chadw gyda gwaith papur perthnasol y Bwrdd Asesu.
- xi. awdurdodi Cadeirydd amgen heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r modiwl neu'r rhaglen sydd dan sylw, i gymryd unrhyw gamau Gweithredol sy'n angenrheidiol i hwyluso busnes brys yn dilyn y Bwrdd i gymeradwyo a llofnodi Gweithred y Cadeirydd, lle nad yw'r Cadeirydd gwreiddiol ar gael.

6.2 Cyfansoddiad Aelodaeth

Bydd y Bwrdd Academaidd yn cymeradwyo ychwanegu aelodau academaidd o staff at y rhestr o Gadeiryddion. Gellir llenwi swydd Cadeirydd gan academydd sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i gyflawni'r rôl yn llwyddiannus, fel y'i henwebwyd gan Ddeon y Gyfadran neu Ddeoniaid Cyswllt. Gall Deoniaid Cyfadranau a/neu Ddeoniaid Cyswllt enwebu aelodau o staff drwy gynghori'r tîm Asesu a Dyfarnu, a fydd yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd Academaidd. Rhaid gwneud enwebiadau cymeradwy cyn y Byrddau Asesu er mwyn cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol cyn y gall y person sydd wedi'i enwebu gadeirio cyfarfod.

Mae dynodi staff sy'n gymwys i gadeirio byrddau asesu yn amodol ar ddangos profiad o sicrwydd ansawdd asesu y gellid bod wedi ei ennill drwy unrhyw un o'r gweithgareddau canlynol:

- i. Safonwr ac Arholwr Allanol gwaith a asesir
- ii. Profiad fel Cadeirydd mewn byrddau neu baneli eraill
- iii. Dealltwriaeth gadarn o reoliadau'r Brifysgol ac effaith penderfyniadau'r bwrdd

Bydd gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr, neu berson a enwebwyd ganddo, yr awdurdod i ofyn am Gadeirydd amgen os oes posibilrwydd bod gan y Cadeirydd enwebedig gysylltiad rhy agos â'r modiwl neu'r rhaglenni sy'n cael eu hystyried mewn Bwrdd.

6.3 Aelodaeth y Bwrdd Asesu Modiwlau

Bydd pob Bwrdd Asesu Modiwlau yn cynnwys:

- i. Cadeirydd
- ii. Deoniaid Cyswllt Cyfadranau'r Rhaglenni a'r Modiwlau dan ystyriaeth
- iii. Arholwr(wyr) Allanol sy'n gysylltiedig â Rhaglenni a Modiwlau sy'n cael eu hystyried
- iv. Asesydd allanol (Ile bo hynny'n briodol)
- v. Cynrychiolwyr Cyrff Statudol neu Reoleiddiol Proffesiynol (Ile bo hynny'n briodol)
- vi. Cynrychiolwyr Partneriaid neu Diwtor Cyswllt enwebedig (Ile bo hynny'n briodol)
- vii. Arholwyr Mewnol ar gyfer Rhaglenni a Modiwlau dan ystyriaeth
- viii. Arweinwyr Rhaglen
- ix. Yn bresennol:
 - a. bydd aelod o'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr yn mynychu i bwrpas cynghori
 - b. Gweinyddwr Bwrdd

Ex Officio: Gall Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Academaidd fynychu'r Bwrdd Asesu.

6.4 Cworwm

Fel arfer, y cworwm ar gyfer Bwrdd Asesu Modiwlau fydd:

- i. Y Cadeirydd

- ii. O leiaf un cynrychiolydd o blith arholwyr o bob maes pwnc a aseswyd, ar gyfer y flwyddyn neu ran o'r rhaglen sy'n cael ei hystyried fel y penderfynir gan y Cadeirydd.
- iii. Cynrychiolydd Academaidd o bob sefydliad partner y mae marciau'n cael eu cyflwyno ganddo neu Diwtor Cyswllt Academaidd priodol. Yn ogystal, ni fydd Byrddau Modiwlau'n bwrw ymlaen oni bai bod Gweinyddwr y Bwrdd enwebedig yn bresennol i ddarparu'r gwaith papur priodol ac i gofnodi trafodion a bod cynrychiolydd o SPSA yn bresennol i roi cyngor.
- iv. Os nad oes cworwm yn y Bwrdd Modiwl, bydd fel arfer yn cael ei ailymgynnull yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, mae gan Gadeirydd y Bwrdd Asesu yr awdurdod i ganiatáu i Fwrdd Asesu Modiwlau fwrw ymlaen lle nad oes cworwm yn bresennol.

6.5 Absenoldeb y Cadeirydd

Os na fydd Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod o'r bwrdd sydd wedi'i drefnu, bydd cynrychiolydd yr SPSA sy'n bresennol yn gallu cynghori aelodau'r bwrdd sy'n bresennol y gallant enwebu aelod arall sy'n bresennol i weithredu fel Cadeirydd fel y gall y bwrdd fwrw ymlaen.

Bydd yn ofynnol i'r sawl a enwebir fod â phrofiad blaenorol fel Cadeirydd neu o Fwrdd Asesu a bydd yn cael ei gefnogi mewn swyddogaeth reoleiddiol gan gynrychiolydd yr SPSA.

Yn dilyn cyfarfod y bwrdd, cysylltir â'r Cadeirydd oedd i fod i fynychu i ofyn iddo/iddi adolygu canlyniadau'r bwrdd a chadarnhau a ydynt yn cydsynio â'r penderfyniadau a wnaed.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd oedd i fod i fynychu yw derbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod a hysbysu'r Tîm Asesu a Dyfarniadau ymlaen llaw os nad ydynt yn gallu dod i'r cyfarfod.

6.6 Absenoldeb cynrychiolydd o blith arholwyr pob maes pwnc a aseswyd/

Cynrychiolydd Academaidd o bob sefydliad partner/Tiwtor Cyswllt Academaidd

Os na fydd unrhyw un o'r aelodau uchod yn mynychu cyfarfod a drefnwyd y Bwrdd, bydd y cynrychiolydd SPSA sy'n bresennol yn gallu cynghori aelodau'r bwrdd sy'n bresennol na fydd y marciau/modiwlau/proffiliau myfyrwyr perthnasol yn cael eu hystyried yn ystod y bwrdd.

Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, bydd y Tîm Asesu a Dyfarniadau yn rhoi crynodeb o'r marciau/modiwlau/proffiliau myfyrwyr perthnasol i'r cynrychiolwyr pwnc perthnasol/Tiwtoriaid Cyswllt Academaidd a'r Cadeirydd i'w hadolygu a'u cymeradwyo. Cyfrifoldeb y cynrychiolydd pwnc/Tiwtor Cyswllt Academaidd yw derbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod a hysbysu'r Tîm Asesu a Dyfarniadau ymlaen llaw os nad ydynt yn gallu dod i'r cyfarfod.

6.7 Absenoldeb Arholwyr Allanol

Disgwylir i arholwr(wyr) allanol yn y pwnc/pynciau dan sylw, a chymedrolwyr lle bo'n briodol, fynychu o leiaf un Bwrdd Asesu Modiwlau ym mhob blwyddyn academaidd. Os na allant fynychu cyfarfod lle bo angen eu presenoldeb yn ffurfiol, dylent ddarparu cadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi gweld y sampl ofynnol o waith asesedig a'u bod yn fodlon â safon yr asesu a'r marcio. Os na all y Bwrdd fod yn sicr bod yr arholwr allanol wedi gweld y sampl

ofynnol o waith wedi'i asesu, bydd y marciau/modiwlau/proffiliau myfyrwyr perthnasol yn cael eu hystyried yn ystod y bwrdd ond byddant yn amodol ar gymeradwyaeth yn dilyn derbyn cadarnhad o'r uchod gan yr Arholwr(wyr) Allanol perthnasol ar ôl y bwrdd.

6.8 Amllder

Bydd Byrddau Asesu Modiwlau yn cwrdd mor aml ag sy'n ofynnol gan y Brifysgol neu mor aml ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau uchod.

7. Byrddau Asesu Dyfarniadau/Cynnydd

7.1 Cylch gorchwyl

Mae'r Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd yn gyfrifol i Fwrdd Academaidd y Brifysgol. Gall y Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd ffurfio unrhyw is-bwyllgorau sy'n angenrheidiol i gyflawni ei ddyletswyddau ar yr amod bod y cyfryw bwyllgorau yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Asesu. Rhaid i gyfansoddiad a chylch gorchwyl pob is-bwyllgor gael ei gymeradwyo a'i gofnodi gan y Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd a'i adrodd i'r Bwrdd Academaidd.

Mae Paneli Bwrdd Academaidd sydd wedi'u sefydlu'n ffurfiol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Panel Amgylchiadau Esgusodol, Panel Camymddwyn Academaidd a'r Panel Apêl yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau a fydd yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan y Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd.

Bydd gan y Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd y cyfrifoldeb a'r awdurdod a ddirprwywyd iddo gan y Bwrdd Academaidd i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- i. sicrhau bod safonau asesu priodol yn cael eu cynnal;
- ii. sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hasesu yn unol â'r rheoliadau a'r gweithdrefnau cymeradwy;
- iii. gwneud penderfyniad ar gynnydd pob myfyriwr yn y cam dan sylw drwy ystyried marciau ac asesiadau eraill a ddarparwyd, gan gynnwys, lle bo'n briodol, adroddiadau ar hyfforddiant proffesiynol;
- iv. cadarnhau'r dyddiad cau ar gyfer ailgyflwyno gwaith myfyrwyr a defnyddio ei farn academaidd i ystyried a darparu penderfyniad ar achosion lle:
 - a. cynigir amrywiad i'r patrwm cynnydd arferol
 - b. cafwyd cais am estyniad i'r cyfnod cofrestru arferol ar gyfer dyfarniad ac nad yw'n briodol i'r Panel Amgylchiadau Esgusodol ystyried y cais hwnnw.
- v. Lle mae'r Brifysgol yn ymwybodol bod afreoleidd-dra wedi digwydd wrth ddarparu a rheoli'r rhaglen cyn y Bwrdd, gofynnir am gyngor gan y Tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwyr ar ddehongli a gweithredu'r rheoliadau yn benodol er mwyn osgoi rhoi myfyrwyr dan anfantais. Bydd y Bwrdd yn ystyried y cyngor hwn yn ei ddyfarniad terfynol a rhaid iddo ofyn am gymeradwyaeth uniongyrchol gan y Bwrdd Academaidd os yw'n gwyro o'r argymhellion hyn.

- vi. Pan fo'r Panel Amgylchiadau Esgusodol wedi cytuno bod myfyriwr yn absennol o arholiad neu asesiad terfynol am reswm da ac nad yw'n gallu cwblhau asesiad pellach, i ystyried argymell i'r Bwrdd Academaidd naill ai:
 - a. bod o leiaf dwy ran o dair o'r credydau sy'n cyfrif tuag at y dyfarniad terfynol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus neu;
 - b. bod y myfyriwr yn cael ei argymell ar gyfer gwobr aegrotat;
- vii. llunio cofnod o benderfyniadau a wnaed i'w cymeradwyo gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Arholwr Allanol.
- viii. derbyn myfyrwr ar gyfer eu dyfarniadau penodol

7.2 Aelodaeth o'r Bwrdd Dyfarniadau/Cynnydd

Bydd pob Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd yn cynnwys:

- i. Cadeirydd
- ii. Deoniaid Cyswllt Cyfadrannau'r Rhaglenni a'r Modiwlau dan ystyriaeth;
- iii. Prif Arholwr Allanol
- iv. Cynrychiolwyr Cyrff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (Ile bo hynny'n briodol)
- v. Cynrychiolwyr Partneriaid neu diwtor cyswllt enwebedig (Ile bo hynny'n briodol)
- vi. Arweinydd(ion) Rhaglen neu berson a enwebwyd ganddynt

Yn bresennol:

- i. bydd aelod o'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddu Myfyrwr yn bresennol i gynghori'r Bwrdd
- ii. Gweinyddwr Bwrdd

Gall Arholwyr Mewnol fynychu fel arsylwyr.

Ex Officio: Gall Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Academaidd fynychu'r Bwrdd Asesu.

7.3 Cworwm

Y cworwm ar gyfer Bwrdd Asesu fydd:

- i. Y Cadeirydd
- ii. Arweinydd(ion) Rhaglen(ni) (neu gynrychiolydd a gymeradwywyd gan Ddeon y Gyfadrannau) ar gyfer y rhaglen(ni) sy'n cael eu hystyried).
- iii. Cynrychiolydd Academaidd o bob sefydliad partner y bydd cynnydd/dyfarniadau ganddo'n cael eu hystyried neu Gyswllt Academaidd priodol.
- iv. O leiaf un Prif Arholwr Allanol lle mae'r Bwrdd wedi'i awdurdodi i dderbyn myfyrwr i'w dyfarniadau.
- v. Yn ogystal, ni fydd y byrddau yn bwrw ymlaen oni bai bod Gweinyddwr y Bwrdd enwebedig yn bresennol i ddarparu'r gwaith papur priodol ac i gofnodi trafodion a bod cynrychiolydd o SPSA yn bresennol i roi cyngor.

- vi. Os nad oes cwrwm yn y Bwrdd Dyfarniadau/Cynnydd, bydd fel arfer yn cael ei ailymgynnull yn ddiweddarach. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, mae gan Gadeirydd y Bwrdd Asesu yr awdurdod i ganiatáu i'r achos barhau pan nad oes cwrwm yn y bwrdd.

7.4 Absenoldeb y Cadeirydd

Os na fydd Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod bwrdd sydd wedi'i drefnu, bydd cynrychiolydd yr SPSA sy'n bresennol yn gallu cynghori aelodau'r bwrdd sy'n bresennol y gallant enwebu aelod arall sy'n bresennol i weithredu fel Cadeirydd i sicrhau y gall y bwrdd fwrw ymlaen.

Bydd yn ofynnol i'r sawl a enwebir fod â phrofiad blaenorol fel Cadeirydd neu o Fwrdd Asesu a bydd yn cael ei gefnogi mewn swyddogaeth reoleiddiol gan gynrychiolydd yr SPSA.

Yn dilyn cyfarfod y bwrdd, cysylltir â'r Cadeirydd oedd i fod i fynychu i ofyn iddo/iddi adolygu canlyniadau'r bwrdd a chadarnhau a ydynt yn cydsynio â'r penderfyniadau a wnaed.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd oedd i fod i fynychu yw derbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod a hysbysu'r Tîm Asesu a Dyfarniadau ymlaen llaw os nad ydynt yn gallu dod i'r cyfarfod.

7.5 Absenoldeb Arweinydd Rhaglen Pwnc/Cynrychiolydd Academaidd o bob sefydliad partner / Tiwtor Cyswllt Academaidd

Os na fydd unrhyw un o'r aelodau uchod yn mynychu cyfarfod a drefnwyd y Bwrdd, bydd y cynrychiolydd SPSA sy'n bresennol yn gallu cynghori aelodau'r bwrdd sy'n bresennol na fydd y marciau/modiwlau/proffiliau myfyrwyr perthnasol yn cael eu hystyried yn ystod y bwrdd.

Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd, bydd y Tîm Asesu a Dyfarniadau yn rhoi crynodeb o'r marciau/modiwlau/proffiliau myfyrwyr perthnasol i'r cynrychiolwyr pwnc perthnasol/Tiwtoriaid Cyswllt Academaidd a'r Cadeirydd i'w hadolygu a'u cymeradwyo.

Cyfrifoldeb y cynrychiolydd pwnc/Tiwtor Cyswllt Academaidd yw derbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod a hysbysu'r Tîm Asesu a Dyfarniadau ymlaen llaw os nad ydynt yn gallu dod i'r cyfarfod.

7.6 Absenoldeb y Prif Arholwr Allanol

Os na all y Prif Arholwr Allanol fynychu cyfarfod lle mae angen ei bresenoldeb yn ffurfiol, bydd marciau/cynnydd/dyfarniadau/proffiliau myfyrwyr perthnasol yn cael eu hystyried yn ystod y bwrdd ond bydd yn amodol ar gymeradwyaeth yn dilyn cadarnhad gan y Prif Arholwr Allanol perthnasol.

7.7 Amllder

Bydd Byrddau Asesu Dyfarniadau/Cynnydd yn cwrdd mor aml ag sy'n ofynnol gan y Brifysgol neu mor aml ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau uchod.

7.8 Myfyrwyr yr ystyrir eu bod wedi methu

Rhaid i'r Bwrdd Asesu perthnasol drefnu i bob ymgeisydd sydd wedi cael eu methu gan y Bwrdd Asesu gael eu hysbysu yn ysgrifenedig. Dylid nodi gofynion ailsefyll lle bo hynny'n briodol.

7.9 Mynediad ffurfiol i raddau

Mae'r Bwrdd Asesu Dyfarniadau/Cynnydd wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd Academaidd i dderbyn myfyrwyr i'w dyfarniadau priodol a chyflwyno'r dyfarniadau a'r breintiau yn unol â rheoliadau'r Brifysgol.

7.10 Cyhoeddi canlyniadau

Bydd SPSA yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cael gwybod am eu canlyniadau. Bydd y tîm Rhaglen yn gwneud trefniadau i hysbysu myfyrwyr, yn ysgrifenedig, am unrhyw ofynion ailsefyll.

Atodiad 2 – Cyfarwyddiadau Cyffredinol ar gyfer Marcio Aseidiadau

1. Fframwaith Marcio Lefel 3

Mae'r fframwaith marcio yn cyd-fynd â'r Pwyntiau Cyfeirio Allanol canlynol:

Disgrifyddion Lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW)

Ffiniau Graddau %	0	1-29%	30-39%	40 – 49%	50 – 59%	60 – 69%	70 – 79%	80 – 90%	90-100%	Cyfanswm
Canlyniad dysgu: 1.	Methiant i gyflwyno	Anfodddhaol [nodwch y canlyniad dysgu]	Isafswm [nodwch y canlyniad dysgu]	Boddhaol [nodwch y canlyniad dysgu]	Eithaf da [nodwch y canlyniad dysgu]	Da [nodwch y canlyniad dysgu]	Ardderchog [nodwch y canlyniad dysgu]	Eithriadol [nodwch y canlyniad dysgu]	Rhagorol [nodwch y canlyniad dysgu]	
		Ddim yn bodloni'r canlyniad dysgu a'r meini prawf i basio'r aseiniad	Y mymryn lleiaf o allu i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	Gallu boddhaol i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	Gallu eithaf da i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	Gallu da i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	Gallu rhagorol i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	Gallu eithriadol i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	Gallu rhagorol i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol. Arddangos ond y mymryn lleiaf o ddysgu a barn annibynnol.	
		Y mymryn lleiaf o ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o	Ymwybyddiaeth foddhaol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y	Ymwybyddiaeth eithaf da o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y	Ymwybyddiaeth dda o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y	Ymwybyddiaeth ragorol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes	Ymwybyddiaeth eithriadol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y	Ymwybyddiaeth rhagorol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y		

			fewn y maes astudio neu waith.	maes astudio neu waith	maes astudio neu waith	maes astudio neu waith	astudio neu waith	maes astudio neu waith	astudio neu waith	
Sylwadau										

Dosbarth	%	Meini prawf
1af	90-100	Rhagorol: Gallu eithriadol i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth ragorol o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Mae gwaith hefyd yn dangos ymwybyddiaeth ragorol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.
	80-90	Eithriadol: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y dosbarthiad uchod yn cael eu harddangos. Efallai y bydd gwallau dibwys mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio).
	70-79	Ardderchog: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y dosbarthiad uchod yn cael eu harddangos. Efallai y bydd gwallau dibwys mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Efallai y bydd rhai mân anghywirdebau/hepgoriadau.
2.i	60-69	Da: Gallu da i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth dda o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Mae gwaith hefyd yn dangos ymwybyddiaeth dda o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.
2.ii	50-59	Eithaf Da: Gallu eithaf da i nodi a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth eithaf da o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Mae gwaith hefyd yn dangos ymwybyddiaeth eithaf da o safbwyntiau neu ddulliau gwahanol o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.
3ydd	40-49	Boddhaol: Gallu boddhaol i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth foddhaol o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Mae'r gwaith hefyd yn dangos ymwybyddiaeth foddhaol o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.

R / F	35-39	Atgyfeiriad/Methiant Ymylol: Peth gallu i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o dystiolaeth o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Mae'r gwaith hefyd yn dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o safbwyntiau neu ddulliau gwahanol o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith.
	30-34	Atgyfeiriad / Methiant: Y mymryn lleiaf o allau i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Mae hyn yn cynnwys ond y mymryn lleiaf o dystiolaeth o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Nid oes yn y gwaith ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith. Gall y gwaith fod yn anghyflawn.
	1-29	Atgyfeiriad/Methiant Clir: Gallu anfoddfaol i adnabod a defnyddio dealltwriaeth, dulliau a sgiliau perthnasol i gwblhau tasgau a mynd i'r afael â phroblemau sydd, er eu bod wedi'u diffinio'n dda, yn dangos rhywfaint o gymhlethdod. Nid oes fawr ddim dystiolaeth o gymryd cyfrifoldeb am gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, yn ogystal â defnyddio annibyniaeth a barn o fewn ffiniau diffiniedig yr asesiad. Nid oes gan y gwaith ymwybyddiaeth o wahanol safbwyntiau neu ddulliau o fewn y maes astudio neu'r maes gwaith. Mae'r gwaith yn anghyflawn.

2. Fframwaith Marcio Lefel 4

Mae'r fframwaith marcio yn cyd-fynd â'r Pwyntiau Cyfeirio Allanol canlynol:

[Disgrifyddion Lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#)

[Fframweithiau ar gyfer cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU 2024 \(FHEQ\)](#)

Ffiniau Graddau %	0	1-29%	30-39%	40 – 49%	50 – 59%	60 – 69%	70 – 79%	80 – 90%	90-100%	Cyfanswm
Canlyniadau dysgu: [nodwch y canlyniad dysgu]	Methiant i gyflwyno	Anfoddhaol [nodwch y canlyniad dysgu]	Lleiaf [nodwch y canlyniad dysgu]	Boddhaol [nodwch y canlyniad dysgu]	Eithaf da [nodwch y canlyniad dysgu]	Da [nodwch y canlyniad dysgu]	Ardderchog [nodwch y canlyniad dysgu]	Eithriadol [nodwch y canlyniad dysgu]	Rhagorol [nodwch y canlyniad dysgu]	
		Ddim yn bodloni'r canlyniad dysgu a'r meini prawf i basio'r aseiniad	Dim ond y wybodaeth leiaf am ddamcaniaeth au perthnasol heb eu cefnogi gan ymchwil.	Gwybodaeth sylfaenol am ddamcaniaeth au perthnasol a gefnogir gan ymchwil sylfaenol.	Gwybodaeth resymol am ddamcaniaeth au perthnasol a gefnogir gan ystod weddol o ymchwil.	Gwybodaeth dda am ddamcaniaeth au perthnasol a gefnogir gan ystod dda o ymchwil.	Gwybodaeth ragorol am ddamcaniaeth au perthnasol a gefnogir gan ymchwil eang.	Gwybodaeth eithriadol am ddamcaniaeth au perthnasol a gefnogir gan ymchwil helaeth.	Gwybodaeth ragorol am ddamcaniaeth au perthnasol a gefnogir gan ymchwil helaeth.	
			Diffyg gwerthuso, diffyg cynllunio a strwythur i'r dadleuon.	Gwerthusiad cyfyngedig, diffyg cynllunio a strwythur i'r dadleuon. Nid	Rhywfaint o werthusiad, rhywfaint o gynllunio a strwythur i'r	Gwerthusiad da, dadleuon wedi'u cynllunio a'u strwythuro'n	Gwerthusiad ardderchog, dadleuon wedi eu cynllunio a'u	Gwerthusiad eithriadol, dadleuon rhagorol, gwreiddiol a	Gwerthusiad rhagorol, dadleuon gwych, unigryw a	



Ffiniau Graddau %	0	1-29%	30-39%	40 – 49%	50 – 59%	60 – 69%	70 – 79%	80 – 90%	90-100%	Cyfanswm
			Mae syniadau'n cael eu cyfathrebu'n wael.	yw syniadau'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol.	dadleuon. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n ddigonol.	dda. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n dda.	strwythuro'n ardderchog. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n ardderchog.	chraff. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n eithriadol.	chraff. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n rhagorol.	
Sylwadau										

Dosbarth	%	Disgrifyddion o Feini Prawf QAA Penodol
1af	90-100	Rhagorol: Gwybodaeth ragorol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] . Mae'r modd y caiff cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] hwn eu gwerthuso a'u dehongli'n unigryw ac yn fewnweledol. Mae'r gwaith yn dangos gallu eithriadol i gyflwyno, gwerthuso a dehongli data i ddatblygu dadleuon a gwneud penderfyniadau cadarn. Mae'r cyflwyniad yn rhyfeddol heb unrhyw wallau mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Mae tystiolaeth o ddarllen ac ysgolheictod helaeth, mae strwythur a chydlynid dadleuon yn rhagorol. Tystiolaeth ragorol o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol.
	80-90	Eithriadol: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y dosbarthiad uchod yn cael eu harddangos. Efallai y bydd gwallau dibwys mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio).
	70-79	Ardderchog: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y dosbarthiad uchod yn cael eu harddangos. Efallai y bydd gwallau dibwys mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Efallai y bydd rhai mân anghywirdebau/hepgoriadau.

Dosbarth	%	Disgrifyddion o Feini Prawf QAA Penodol
2.i	60-69	Da iawn: Gwybodaeth dda o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] . Mae'r modd y caiff cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] hwn eu gwerthuso a'u dehongli'n dangos rhywfaint o wreiddioldeb a dealltwriaeth. Mae'r gwaith yn dangos y gallu i gyflwyno, gwerthuso a dehongli data i ddatblygu dadleuon a gwneud penderfyniadau cadarn. Mae'r cyflwyniad yn dda heb unrhyw gamgymeriadau arwyddocaol mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Mae tystiolaeth o amrywiaeth dda o ddarllen ac ysgolheictod, mae strwythur a chydlynid dadleuon yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith mor wreiddiol neu nodedig gryf â darn o waith o'r radd flaenaf, ac efallai y bydd rhai hepgoriadau, neu amherthnasedd. Tystiolaeth dda o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol.
2.ii	50-59	Gweddol dda: Gwybodaeth gadarn o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] heb unrhyw anghywirdebau na hepgoriadau mawr. Mae diffyg gwreiddioldeb yn y modd y cafodd cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] eu dehongli ac maent yn ddisgrifiadol ac arwynebol i raddau helaeth. Mae'r gwaith yn dangos rhywfaint o allu i gyflwyno, gwerthuso a dehongli data i ddatblygu dadleuon a llunio barn. Mae'r cyflwyniad yn foddhaol ac nid yw'n cynnwys nifer fawr o wallau sylweddol mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Mae tystiolaeth o rywfaint o ddarllen ac ysgolheictod priodol, er y gall yr ystod fod yn gul. Mae strwythur a chydlynid dadleuon yn foddhaol. Peth tystiolaeth o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol.
3ydd	40-49	Boddhaol: Gwybodaeth sylfaenol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] gyda rhai anghywirdebau, hepgoriadau neu gamddealltwriaeth. Mae'r modd y cafodd cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] hwn eu dehongli yn gyfyngedig, disgrifiadol ac arwynebol. Mae'r gwaith yn dangos gallu cyfyngedig i gyflwyno, gwerthuso a dehongli data i ddatblygu dadleuon a gwneud penderfyniadau. Mae cyflwyniad a'r arddull ysgrifennu yn wael gydag ystyr yn aneglur weithiau oherwydd brawddegau sydd wedi'u llunio'n anramadegol. Mae tystiolaeth gyfyngedig o ddarllen ac ysgolheictod priodol. Mae strwythur a chydlynid dadleuon yn gyfyngedig; efallai bod y gwaith yn anghyflawn. Tystiolaeth gyfyngedig o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol.
R / F	35-39	Atgyfeiriad/Methiant Ymylol: Gwybodaeth sylfaenol yn unig o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] gydag anghywirdebau, hepgoriadau neu gamddealltwriaeth. Diffyg gwerthuso a dehongli cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] hwn. Mae'r modd y cafodd data ei gyflwyno, ei werthuso a'i dehongli er mwyn datblygu dadleuon a gwneud penderfyniadau yn wael. Mae cyflwyniad a'r arddull ysgrifennu yn wael gyda'r dystiolaeth leiaf o ddarllen ac ysgolheictod priodol. Mae strwythur a chydlynid dadleuon yn wan, mae'r gwaith yn anghyflawn. Tystiolaeth gyfyngedig o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol. <i>(Mae digollediad yn bosibl o fewn rheoliadau'r bwrdd ar gyfer lefel israddedig ac ôl-raddedig).</i>

Dosbarth	%	Disgrifyddion o Feini Prawf QAA Penodol
	30-34	Atgyfeiriad/Methiant: Ond y mymryn lleiaf o wybodaeth o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] gyda chamgymeriadau, hepgoriadau neu gamddealltwriaeth difrifol. Diffyg gwerthuso a dehongli cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] hwn. Ychydig neu ddim cyflwyno, gwerthuso a dehongli data i ddatblygu dadleuon a gwneud dyfarniadau. Mae dull cyflwyno ac ysgrifennu yn wael heb unrhyw dystiolaeth o ddarllen ac ysgolheictod priodol. Mae strwythur a chydlyniad dadleuon yn wan, mae'r gwaith yn anghyflawn. Tystiolaeth gyfyngedig o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol. Dim ond y mymryn lleiaf o dystiolaeth o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble disgwylir gallu i gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb personol.
	1-29	Argyfeiriad/Methiant Clir: Gwybodaeth anfoddhaol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r [maes astudio] yn gyffredinol, mae'r gwaith yn amherthnasol gydag ychydig iawn o ddeunydd o unrhyw werth. Dim gwerthuso a dehongli cysyniadau ac egwyddorion sylfaenol y [maes astudio] hwn. Dim cyflwyno, gwerthuso a dehongli data i ddatblygu dadleuon a gwneud penderfyniadau. Mae'r arddull cyflwyno ac ysgrifennu yn annerbyniol heb unrhyw dystiolaeth o ddarllen ac ysgolheictod priodol. Mae strwythur a chydlyniad dadleuon yn wael, mae'r gwaith yn anghyflawn. Dim dystiolaeth o rinweddau a sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen arddangos rhywfaint o gyfrifoldeb personol.
	0	Atgyfeiriad/Methiant: Methiant i gyflwyno

3. Fframwaith Marcio Lefel 5

Mae'r fframwaith marcio yn cyd-fynd â'r Pwyntiau Cyfeirio Allanol canlynol:

[Disgrifyddion Lefel Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\)](#)

[Fframweithiau ar gyfer cymwysterau Addysg Uwch cyrff dyfarnu graddau'r DU 2024 \(FHEQ\)](#)

Ffiniau Graddau %	0	1-29%	30-39%	40 – 49%	50 – 59%	60 – 69%	70 – 79%	80 – 90%	90-100%	Cyfanswm
Canlyniadau dysgu: 1. [nodwch y canlyniad dysgu]	Methiant i gyflwyno	Anfoddhaol [nodwch y canlyniad dysgu]	Lleiaf [nodwch y canlyniad dysgu]	Boddhaol [nodwch y canlyniad dysgu]	Eithaf da [nodwch y canlyniad dysgu]	Da [nodwch y canlyniad dysgu]	Ardderchog [nodwch y canlyniad dysgu]	Eithriadol [nodwch y canlyniad dysgu]	Rhagorol [nodwch y canlyniad dysgu]	
		Ddim yn bodloni'r canlyniad dysgu a'r meini prawf i basio'r aseiniad	Y mymryn lleiaf o wybodaeth am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol heb eu cefnogi gan ymchwil.	Peth gwybodaeth sylfaenol am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol a gefnogir gan ymchwil sylfaenol.	Gwybodaeth resymol am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol a gefnogir gan ystod deg o ymchwil.	Gwybodaeth dda am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol a gefnogir gan ystod dda o ymchwil.	Gwybodaeth ardderchog am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol a gefnogir gan ymchwil eang.	Gwybodaeth eithriadol am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol a gefnogir gan ymchwil helaeth.	Gwybodaeth ragorol am ddamcaniaeth au dysgu perthnasol a gefnogir gan ymchwil helaeth.	
		Diffyg dadansoddiad beirniadol, dadleuon ddim wedi eu cynllunio a'u strwythuro. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n wael.	Dadansoddiad beirniadol cyfyngedig, dadleuon ddim wedi eu cynllunio a'u strwythuro. Nid yw syniadau yn cael eu	Mae peth dadansoddiad beirniadol, dadleuon yn dangos rhywfaint o gynllunio a strwythur. Syniadau'n cael eu	Mae dadansoddiad beirniadol da, dadleuon wedi eu cynllunio a'u strwythuro. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n dda.	Mae dadansoddiad beirniadol rhagorol, dadleuon wedi eu cynllunio a'u strwythuro'n ardderchog. Syniadau'n cael eu	Dadansoddiad beirniadol eithriadol, dadleuon rhagorol, gwreiddiol a chraff. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n eithriadol.	Dadansoddiad beirniadol rhagorol, dadleuon rhagorol, unigryw a chraff. Syniadau'n cael eu cyfathrebu'n rhagorol.		



	cyfathrebu'n effeithiol.	cyfathrebu'n ddigonol.		cyfathrebu'n ardderchog.		
--	--------------------------	------------------------	--	--------------------------	--	--

Sylwadau	
-----------------	--

Dosbarth	%	Meini prawf
1af	90-100	<p>Rhagorol: Gwybodaeth ragorol a dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion sefydledig yn [maes astudio] a sut mae'r egwyddorion hynny wedi datblygu. Mae'r gwaith yn dangos cymhwysiad rhagorol o ddamcaniaethau ac egwyddorion allweddol i ymarfer gyda gwybodaeth ragorol a gwerthusiad beirniadol o gasglu data a dulliau o ddatrys problemau. Mae dealltwriaeth y myfyriwr o sut mae ei wybodaeth yn gyfyngedig a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu dadansoddiad a'u dehongliadau o ddata yn rhyfeddol.</p> <p>Mae dadansoddiad beirniadol eithriadol o wybodaeth gan ddefnyddio ystod o dechnegau sefydledig sy'n darparu atebion unigryw a chraff i broblemau sy'n codi o'r dadansoddiad hwnnw.</p> <p>Mae'r modd y cyfathrebwyd gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad mewn amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaeodd arbenigol ac anarbenigol yn rhagorol. Mae gan y myfyriwr allu rhagorol i weithredu dulliau [maes astudio] yn effeithiol. Mae'r cyflwyniad yn rhyfeddol heb unrhyw wallau mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Mae tystiolaeth o ddarllen ac ysgolheictod helaeth, mae strwythur a chydlynid dadleuon yn rhagorol. Tystiolaeth ragorol o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen cymryd cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.</p>
	80-90	<p>Eithriadol: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y dosbarthiad uchod yn cael eu harddangos er y gall fod gwallau dibwys.</p>
	70-79	<p>Ardderchog: Yn y rhan fwyaf o feysydd, mae'r rhinweddau sy'n ofynnol ar gyfer y dosbarthiad uchod yn cael eu harddangos. Efallai y bydd camgymeriadau dibwys a rhai mân anghywirdebau/hepgoriadau.</p>

Dosbarth	%	Meini prawf
2.i	60-69	<p>Da iawn: Gwybodaeth dda a dealltwriaeth feirniadol o egwyddorion sefydledig yn [maes astudio] a sut mae'r egwyddorion hynny wedi datblygu. Mae'r gwaith yn dangos cymhwysiad da o ddamcaniaethau ac egwyddorion allweddol i ymarfer gyda gwybodaeth dda a gwerthusiad beirniadol o gasglu data a dulliau o ddatrys problemau. Mae dealltwriaeth y myfyriwr o sut mae ei wybodaeth yn gyfyngedig a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu dadansoddiad a'u dehongliadau o ddata yn dda.</p> <p>Mae dadansoddiad beirniadol hyfedr o wybodaeth gan ddefnyddio ystod o dechnegau sefydledig sy'n darparu atebion â pheth gwreiddioldeb a mewnwleidiad i broblemau sy'n codi o'r dadansoddiad hwnnw.</p> <p>Mae'r modd y cyfathrebwyd gwybodaeth, dadleuon a dadansoddi mewn amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol yn dda. Mae gallu'r myfyriwr i weithredu dulliau [maes astudio] allweddol yn effeithiol yn dda. Y cyflwyniad wedi'i gyflawni heb unrhyw gamgymeriadau arwyddocaol mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Mae tystiolaeth o ddarllen ac ysgolheictod, mae strwythur a chydlynid dadleuon yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith mor wreiddiol neu nodedig gryf â darn o waith o'r radd flaenaf, ac efallai y bydd rhai hepgoriadau, neu amherthnasedd. Tystiolaeth dda o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen cymryd cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.</p>
2.ii	50-59	<p>Eithaf Da: Gwybodaeth gadarn o egwyddorion sefydledig yn [maes astudio] a sut mae'r egwyddorion hynny wedi datblygu gyda rhywfaint o ddealltwriaeth feirniadol a dim anghywirdebau na hepgoriadau mawr. Mae'r gwaith yn ddisgrifiadol ac arwynebol i raddau helaeth gyda rhywfaint o gymhwyso damcaniaethau ac egwyddorion allweddol i ymarfer a gwybodaeth a gwerthusiad rhesymol o gasglu data a dulliau o ddatrys problemau. Mae dealltwriaeth y myfyriwr o sut mae ei wybodaeth yn gyfyngedig a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau o ddata yn ddigonol. Mae dadansoddiad beirniadol o wybodaeth gan ddefnyddio ystod o dechnegau sefydledig yn gyfyngedig, fel nad oes gan atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad hwnnw wreiddioldeb a mewnwleidiad.</p> <p>Mae'r modd y cyfathrebwyd gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad mewn amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol yn gadarn ac mae'r myfyriwr yn gallu gweithredu dulliau [maes astudio] allweddol. Mae'r cyflwyniad yn foddhaol ac nid yw'n cynnwys nifer fawr o wallau sylweddol mewn arddull ysgrifennu academaidd (gan gynnwys sillafu, atalnodi, gramadeg, adeiladu brawddegau, a chyfeirio). Mae tystiolaeth o rywfaint o ddarllen ac ysgolheictod priodol, er y gall yr ystod fod yn gul, tra bod strwythur dadleuon a chydlynid yn foddhaol. Peth tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth ble mae angen cymryd cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.</p>

Dosbarth	%	Meini prawf
